EGLWYS EMAUS BANGOR

# Y NEGESYDD

## AWST a MEDI 2024

### GAIR GAN Y GWEINIDOG:

*Newid a Sefydlogrwydd*

**Arglwydd, buost yn amddiffynfa i ni**
**ymhob cenhedlaeth.**
**Cyn geni'r mynyddoedd,**
**a chyn esgor ar y ddaear a'r byd,**
**o dragwyddoldeb hyd dragwyddoldeb, ti sydd Dduw.**
*(Salm 90 adnodau 1 a 2)*

**“Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.”**
*(Hebreaid 13: 8)*

### TEITHIAU CERDDED

Yn y lolfa yn Llanddaniel mae gen i brint o un o luniau Kyffin Williams brynwyd gan Mam rai blynyddoedd yn ôl. Mae’n ddarlun mewn du, gwyn a gwyrdd gyda’r artist ar ochr Sir Fôn i’r Fenai yn edrych draw ar yr Eifl yn y pellter. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r llun wedi aros yr un peth ond ei arwyddocâd wedi newid. Pan brynwyd y llun, roedd Môn ymhell a’r Eifl yn agos ond erbyn hyn dwi’n byw yn Sir Fôn heb fod ymhell o leoliad yr arlunydd wrth baentio ei lun. Mewn ffordd rhyfedd felly, mae fy mywyd go iawn wedi dal i fyny gyda stori’r llun.





*MOEL Y DON O’R FELINHELI*

*Y FELINHELI O MOEL Y DON*







PERTHYNAS UNIGRYW

Mae'r teithiau cerdded bach dwi wedi eu dewis yn ddiweddar wedi tynnu fy sylw unwaith eto at y berthynas unigryw sydd rhwng Arfon a Môn, mae'r naill fel petai'n rhyw lwyfan i edrych a sylwi ar y llall. Wrth gerdded ger Niwbwrch gallwn weld yr Eifl yn y pellter, ac yn Ninas Dinlle, gyda'r Eifl yn agos, gallwn weld traeth Llanddwyn o bell. Wrth gerdded yn y Felinheli ac yn Moel y Don, teimlwn fy mod yn sefyll mewn gwahanol ran o'r un darlun.

Yn wahanol i Cynan, nid tonnau gwyllt y môr sydd orau gen i ond dŵr llonydd fel llyn sy'n troi'n ddrych neu'n gynfas artist ar ddiwrnod braf – *'a thyn heulwen ysblennydd*
*ar len y dŵr lun y dydd'*.

**EDRYCH YN ÔL**

Wrth ddewis teithiau cerdded, cefais fy nhynnu yn ôl yn reit naturiol i lefydd lle rydym wedi byw fel teulu ers cyrraedd y Gogledd. Cerdded yn y Felinheli, y pentref lle y buom yn byw gyntaf ac ymweld â Chlynnog Fawr a'r ardal lle y buom yn byw fel teulu tan ryw dair blynedd a hanner yn ôl. Mae mynd yn ôl i le da chi wedi byw yn medru bod yn heriol, yn un peth am fod pethau'n siwr o fod wedi newid. Erbyn heddiw, mae'r Eglwys yn y Felinheli wedi cau a'r Ficerdy bellach yn y broses o gael ei droi'n fflatiau. Ar nodyn mwy gobeithiol, mae'r Ficerdy yng Nghlynnog bellach yn ganolfan i bererinion ac mae datblygiadau cynhyrfus a gobeithiol ym mywyd Eglwys Beuno Sant a'r eglwysi sy'n perthyn i'r un ardal weinidogaeth. Mae edrych yn ôl ar daith bywyd yn medru bod yn brofiad gwerthfawr yn seicolegol ac yn ysbrydol. Mae'n ein hatgoffa o'r hyn sydd wedi bod a'n gorfodi i wynebu poen yr hyn sydd wedi ei golli ond, o dipyn i beth, mae'n medru ein helpu ni i werthfawrogi nad ydy'r gorffennol wedi'i golli o gwbl ond yn gyfoeth sydd wedi ei roi yn saff yn y banc ar ein cyfer, yn drysor na fedrir ei ddwyn oddi arnom.

Yn Salm 90, mae'r Salmydd yn gweld y mynyddoedd cadarn a disymud, ac yn dweud: **"Arglwydd, rwyt ti'n bod hyd yn oed cyn geni'r mynyddoedd!"** Dydy Duw ddim yn cael ei effeithio gan dreigl amser a dydy ei gyfiawnder, ei gariad na'i dosturi byth yn pallu nag yn pylu. Beth bynnag fydd yn newid yn ein bywydau a'n byd, bydd Duw yn gyson a ffyddlon. Roedd awdur y llythyr at yr Hebreaid yn feddyliwr craff, yn hoff o esbonio a rhesymu ond weithiau cawn ganddo wirioneddau mawr am Grist sy'n syml ond yn hynod ddwfn: *"Mae Iesu y Meseia yr un fath bob amser – ddoe, heddiw ac am byth!"*

Wrth i amser fynd heibio, wrth brofi newidiadau bywyd pan fydd y seiliau'n siglo, ein sicrwydd yn cael ei danseilio, gallwn wybod fod y Duw cadarn y tu cefn i ni, fod ein Harglwydd Iesu Grist yr un o hyd, ddoe, heddiw ac yfory. Mae ei gariad a'i obaith fel angor yn ein dal, yn ein gwreiddio, yn ein cadw rhag cael ein sgubo i ffwrdd gan y stormydd. Drwy ymddiried ynddo y cawn ni'r dewrder a'r hyder hefyd i ddechrau edrych ymlaen i'r fory newydd yn ei gwmni.

Carol M Jones

# CERDDED YN ÔL I EMAUS

Rai wythnosau'n ôl, gyda'r teimlad fod y cyfnod sabothol yn carlamu i'w derfyn, fe benderfynais i osod her ymarferol i fi fy hun ar gyfer yr amser oedd yn weddill, sef cerdded dros ddeng mil o gamau y dydd am 28 diwrnod a phostio neges ar **Facebook** bob dydd hefyd. Bwriad y cerdded oedd ceisio gwella fy iechyd corfforol. Wrth gwrs, i'r rhai sy'n gerddwyr mawr neu'n rhedwyr marathonau, dydy 10,000 o gamau yn ddim byd, ond i fi sy'n treulio llawer o fy amser wrth y cyfrifiadur, yn y car neu ar y soffa, adre, mae gwneud hynny bob dydd am gyfnod o fis yn cymryd dipyn o ymdrech a disgyblaeth.

Mae concro diogi corfforol wedi bod yn rhan o'r her ond mae concro rhwystrau yn y meddwl wedi bod yr un mor anodd. Wrth edrych yn ôl dros y blynyddoedd diwethaf, dwi'n siwr bod y cyfuniad o alar a gwaddol y cyfnod clo wedi fy ngwneud i'n dueddol o swatio ar ôl gorffen gwaith yn hytrach na mynd allan. Unwaith da chi'n swatio, hawdd iawn ydy bwyta mwy na sydd angen a gall paneidiau cyson fynd yn ffordd o fyw heb i rywun sylwi bron.

Roedd yn rhaid cael sbardun cryfach na meddwl am fy lles corfforol i fwrw ati gyda'r cerdded felly dyma fi'n penderfynu codi arian tuag at y ddwy Apêl Cymorth Cristnogol sydd gennym ar y gweill a datgan hynny nid yn unig wrth aelodau Emaus ond yn gyhoeddus ar Facebook! Wrth gerdded 'yn gyhoeddus' fel petai roeddwn yn gwybod na fyddai modd rhoi'r gorau iddi'n fympwyol fel y gwnaethum lawer tro o'r blaen wrth ddechrau ar ymgyrchoedd ffitrwydd personol.

Yn anffodus oherwydd Covid (*ydy mae o'n dal o gwmpas!*), fe gollais wythnos ac felly roedd yn rhaid ychwanegu wythnos ar y diwedd. Hyd yma, llwyddwyd i godi £590 ar dudalen we ***Justgiving*** a gwn bod eraill wedi cyfrannu drwy ddulliau mwy traddodiadol. Dwi wedi gorffen yr her gerdded ond mae Cymorth Cristnogol yn cadw'r dudalen ar agor felly cofiwch roi gwybod os oes ganddoch chi syniad am her codi arian. Diolch o galon i bawb am gefnogi a chyfrannu – hebddoch chi, fyddwn ni fyth wedi llwyddo cerdded yn ôl i Emaus.

***Casi***

## PRIODAS RHODRI A GWENNO




Priododd Rhodri Gwyn Williams â Gwenno Pari Huws ar Orffennaf yr 20fed yng nghapel Salem Caerdydd. Roedd y gwasanaeth dan ofal gweinidog yr eglwys, y Parchedig Evan Morgan.
Mab Delyth a Richard Williams, Lôn y Bryn, Bangor, ydi Rhodri, yn frawd i Meilir sy'n byw yng Nghaerdydd, a Steffan sy'n byw yng Nghaernarfon.
Cynhaliwyd y wledd briodas yn y **Tramshed**, Caerdydd, a chafwyd noson hwyliog i ddilyn yng nghwmni ***Band Llareggub a Tara Bethan***.
Mae Gwenno yn dod yn wreiddiol o Gaernarfon ond symudodd y teulu i Gaerdydd tua 14 mlynedd yn ôl. Athrawes yn Ysgol Bro Morgannwg ydy Gwenno tra bo Rhodri yn gweithio i gwmni **Mango** ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel Ymgynghorydd Cynllunio. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Grangetown, Caerdydd.
Hir oes ac hapusrwydd i'r cwpwl ifanc.

*Delyth Williams*

# CEFNDIR A THEYRNGED
# NANCY HARRIET MORRIS

**( TACHWEDD 1940 - GORFFENNAF 2024 )**



Americanes oedd Nancy. Ei chyfenw cyn priodi oedd Marsh. Yr oedd ei chyn-deidiau wedi ymfudo o Gernyw a Wiltshire i America yn y ddeunawfed ganrif.

Roedd gan Nancy gefndir diddorol. Cafodd Nancy ei geni yn nhalaith Ohio yn 1940. Ond yn fuan ar ôl hynny cafodd ei thad ei alw i fyny i'r fyddin ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd. Nid fel milwr, ond fel milfeddyg yn mynd o fferm i fferm, yn yr ardal lle yr oedd gwersyll gan y fyddin. Ei waith oedd profi iechyd anifeiliaid er mwyn eu defnyddio yn fwyd i'r milwyr.

Yn ystod y cyfnod yma yr oedd y teulu'n symud bob hyn a hyn i fod yn agos i wersylloedd y fyddin. Yn ystod y cyfnod oedd Nancy yn tyfu i fyny, yr yr oedd y teulu yn byw mewn tai cyffredin a'r plant yn mynychu'r ysgolion lleol.

Yn ystod y cyfnod symudol yma bu Nancy yn byw yn Ohio, Virginia, Minnesota, Panama a Ffrainc gan orffen yn Nhalaith Kansas.

Ac yn Kansas y gwnes i syrthio dros fy mhen a'm clustiau mewn cariad efo hi. Meddyliwch, rhyw greadur o'r wlad, fel fi, heb lawer iawn o brofiad o'r byd mawr, yn teithio rhyw bedair mil a hanner o filltiroedd a darganfod Nancy yn y brifysgol yn Lawrence, Kansas. A fuon' ni ddim ar wahân ar ôl hynny.

Yr oedd Nancy wedi cael ysgoloriaeth i Adran Gelf y Brifysgol, ond, fel mae rhai ohonoch yn gwybod, yn niwedd y 50au ar 60au 'doedd paentio realistig ddim yn boblogaidd, a chelf abstract neu arbrofol yn cael ei wthio yn yr adrannau celf. Daeth Nancy i'r casgliad y buasai'n well ganddi baentio yn ei dull ei hun yn ei hamser rhydd, a newid yr ysgoloriaeth i astudio Hanes Celfyddyd Ewrop. Ac fe aeth hi ymlaen i ennill gradd MA am ei gwaith ynghylch eglwysi cadeiriol Ewrop.

Drwy ei chyfnod ysgol a cholegol yr oedd Nancy yn fyfyrwraig ddisglair iawn, un canlyniad o hynny oedd iddi gael ei hethol yn 1961 yn aelod o gymdeithas mawr ei bri ac uchel ei pharch [ ***Phi Beta Kappa*** ]. Mae'r gymdeithas hon yn anrhydeddu myfyrwyr sydd wedi cael y graddau uchaf drwy gydol eu gyrfa ysgol a choleg.




**GORIAD AUR Y GYMDEITHAS**
**EFO ENW NANCY ARNO**

Pan yn Kansas yn 1962, fe wnaethom benderfynu priodi - yr un ohonon ni efo syniad sut oedd mynd o'i chwmpas hi i drefnu petha - ond gobeithio'r gora.
*[Dyma'r tro cyntaf i mi gofio iddi ddefnyddio'r dywediad Lladin* **"Omnia vincit amor"** *ond nid y tro olaf.]*

Fe gyrhaeddom Bangor yn dal i fod yn niwlog ynglyn a'r ffordd i drefnu priodi. ond daeth Mam, ynghyd â'r Parchedig Ifor Williams i'r adwy - cafwyd trwydded i briodi a bu'r briodas ym Mhenuel gyda'r wledd yn y festri.

Er cymaint y diffyg cynllunio ymlaen llaw, mae'n dangos, yn ein achos ni, nad y paratoi trylwyr am amser hir a'r gwario mawr a lleoliad crand sy'n bwysig mewn priodas ond y cariad a'n clymodd am dros 62 o flynyddoedd.

Ar wahân i'w hymroddiad a'i gofal cariadus o'i phlant a'i hwyrion a minnau, 'rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol mai paeintio oedd prif ddiddordeb Nancy, yn arbennig tirluniau gogledd Cymru mewn dyfrlliw. Yn ogystal a thirluniau mae hi hefyd wedi gwneud llawer iawn o bortreadau yn enwedig o blant.

'Dwi'n gwybod fod ei lluniau hi gan rai ohonoch chi sydd yn darllen yr adroddiad yma. Mae amryw o'i lluniau mewn gwahanol rannau o'r byd erbyn hyn.

Bu hefyd yn diwtor dosbarthiadau paentio dyfrlliw allanol y brifysgol yma am dros 18 o flynyddoedd. Yn ychwanegol i'w phaentio, mae wedi gwneud nifer o gerfluniau.



DYMA UN O'N WYRESAU'N DARLLEN

Er ei holl dalentau y peth sy'n aros efo fi, ydi'r cof am y gofal a'r cariad a roddodd yn hael a diarbed i'r plant a finnau.

Nid yw'n bosib dirnad na mesur ein colled

***Cwsg yn dawel,***
***fy nghariad annwyl.***



## DIOLCH AM FEDDWL AMDANOM

Mae Eirwyn a theulu y ddiweddar Nancy Morris
yn diolch o galon i bawb fu mewn cysylltiad a ni
ar ôl ein colled o un oedd mor annwyl i ni i gyd
Bu eich galwadau ffôn, cardiau a llythyrau a'ch rhoddion hael i gefnogi'r elusen
"YMCHWIL CANSER CYMRU"
yn gwneud i ni sylweddoli fod Nancy yn annwyl yn eich golwg chi hefyd

◆◆◆◆◆◆

Yn ychwanegol hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu
cyfraniad a'u cymorth ar ddydd yr angladd. Casi yn arbennig.
Hefyd Nia Llwyd, Olaf Davies, Dilwen Ll. Jones, Sian Arwel
a'r rhai fu'n cynorthwyo yn y capel ac yn y maes parcio.



## DOSBARTH OEDOLION YSGOL SUL EMAUS 2023-24

Daeth diwedd ar flwyddyn lewyrchus arall i ddosbarth oedolion yr Ysgol Sul. Llwyddwyd i'w gynnal yn rheolaidd ar ôl oedfa'r bore ers mis Medi'r llynedd a dwi'n ddiolchgar iawn i bawb am eu ffyddlondeb a'u hymroddiad. Diolch yn arbennig i Siân Arwel, Gareth Ffowc a Deri Tomos am arwain y dosbarth yn eu tro. Am ddau dymor trafodwyd llyfr y diweddar Gareth Lloyd Jones **"Dehongli bywyd Moses"** ac yna ***"Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau"*** gan Clare Hayns yn nhymor yr haf. Fel y gŵyr rhai ohonoch, addaswyd y llyfr hwnnw i'r Gymraeg gan Ruth Davies, Llandegfan gynt, a rhai o ferched y Tabernacl, Caerdydd. Nid oedd amser i fynd ar ôl pob un o'r deugain gwraig yn y gyfrol ond buom yn trafod tua deg ohonynt, gan gynnwys ambell ferch 'ddrwg' fel Delila a Fasti yn ogystal â rhai mwy derbyniol fel Hanna ac Abigail! Gorffennodd y flwyddyn gyda chinio blasus yn yr A&M, Parc Menai, a chyfle i gymdeithasu o gwmpas bwrdd bwyd. Diolch i Siân Arwel am drefnu a chasglu'r enwau. Bydd y dosbarth yn ail ddechrau ar yr ail Sul ym mis Medi pan fyddwn yn trafod llyfr Gareth Lloyd Jones ar **Rwth a Llyfr y Diarhebion.** Os oes gennych ddiddordeb mae croeso i chi ymuno gyda'r dosbarth ar unrhyw adeg. Mae'r cwmni'n ffraeth a'r drafodaeth yn ddifyr – gydag ambell sgwarnog pynciol yn codi i'n temtio ar adegau!

Diolch eto i bawb am eu cefnogaeth.

***Eleri Lloyd Jones***

***Mae'r dosbarth yn ddyledus iawn i Eleri am ei harweiniad*** -(golygydd)



## DOSBARTH OEDOLION YSGOL SUL EMAUS 2023-24

# GRADDIO

*Llongyfarchiadau i*
*Morgan Siôn Owen*
*am raddio â BA dosbarth cyntaf*
*yn y Gymraeg*
*o Brifysgol Caerdydd.*



*Bwriad Morgan yw symud yn ei ôl i Fangor ar gyfer cwrs ymarfer dysgu uwchradd.*

**Dymunwn y gorau iddo ar ei gam nesaf.**

## OEDFAON A CHYFARFODYDD MEDI

**Bore Sul, 1 Medi**
*Oedfa gymun*
*dan arweiniad y gweinidog*

**Bore Sadwrn, 7 Medi,**
**10am tan 12pm**
*Bore Coffi Masnach Deg*

**Bore Sul, 8 Medi**
**Oedfa pob oed**
*dan arweiniad y gweinidog*

**Pnawn Iau, 12 Medi,**
**3pm tan 4pm**
*Cyfarfod 'paned a sgwrs'*

**Bore Sul, 15 Medi**
**Oedfa dan arweiniad**
*y Parchg John Gwilym Jones*

**Bore Sul, 22 Medi**
*Oedfa dan arweiniad y gweinidog*
*gyda chwrdd eglwys yn dilyn*

**Bore Sul, 29 Medi**
*Oedfa i'w chadarnhau*

### MASNACH DEG

Cafwyd 6 mis o werthiant llwyddiannus unwaith eto, a bu modd cyfrannu £100 yr un o'r elw i ***BMS***, i ***Transform Trade***, ac i gasgliad y capel at apêl ***Colombia a Zimbabwe (Cymorth Cristnogol)***. Soniwyd fis diwethaf fod te Traidcraft wedi dod yn ôl, ac mae'r gwerthiant yn profi bod hyn yn boblogaidd. Bellach mae **Transform Trade** wedi partneru â chwmni **'Serious Tissues'** i werthu papur tŷ bach **'Traidcraft'**. Bydd cyfraniad o bob gwerthiant yn mynd i **Transform Trade.** Dewch i ddysgu mwy amdano yn y bore coffi nesaf:

Dydd Sadwrn Medi 7fed 10–12 o'r gloch

Diolch am bob cefnogaeth

Catrin Evans

# YSGOL FEDDYGOL BANGOR

Llongyfarchiadau mawr i Dr Marc Edwards a gafodd ei enwebu i dderbyn gwobr ar sail ei waith fel addysgwr Coleg Brenhinol Meddygon Teulu ***(RCGP GP educator)***. Daeth ei enwebiad yn sgil sefydlu Ysgol Feddygol Gogledd Cymru yma ym Mangor. Mae drysau'r Ysgol Feddygol hon yn agor i fyfyrwyr newydd ym mis Medi a bydd y myfyrwyr hynny yn derbyn gradd mewn meddygaeth ym Mhrifysgol Bangor am y tro cyntaf yn 2028. Ers 2019 mae'r cwrs meddygaeth ym Mangor wedi bod dan ofal Prifysgol Caerdydd a'r myfyrwyr yn derbyn gradd y brifysgol honno, tua hanner ohonynt wedi aros yng Nghymru. Wrth sefydlu Ysgol Feddygol ym Mangor gobeithir y bydd modd denu mwy o ddarpar feddygon lleol, nifer ohonynt yn Gymraeg eu hiaith ac yn debygol o aros yn yr ardal, i ddod yn Feddygon Teulu, rhai ohonynt yn penderfynu arbenigomewn gwaith ysbyty maes o law.

Roedd Marc yn falch iawn i gael ei enwebu a bod yn bresennol yn seremoni'r Coleg Brenhinol Meddygon Teulu yn Llundain ym mis Mehefin.

Pob dymuniad da iddo.







***SWYN Y SUL***

***Os rydych yn gwrando ar y rhaglen gerddoriaeth boblogaidd "Swyn y Sul" ar Radio Cymru ar fore Sul (neu yn hwyrach ar BBC Sounds) fe glywch lais Nia Llewelyn Jones fel y cyflwynydd gwadd am rai o'r wythnosau nesaf. Nia yw merch David, ein trysorydd, a Delyth, ac yn gyn-aelod ffyddlon o Ysgol Sul Penuel. Mae Nia'n ferch brysur iawn! Yn ogystal â'i gwaith gyda chôr Cadeirlan Caerloyw mae hi'n gweithio'n llawn amser gyda BBC Radio Wales a Radio 4 fel uwch-gynhyrchydd rhaglenni crefyddol a moesegol. Mae hi hefyd yn gyfarwyddwr cerdd Cymdeithas Gorawl Fairford a'r Cylch.***

ECO-EGLWYS

Mae mwy a mwy o eglwysi a mudiadau eraill yn mynd ati i geisio diogelu ein hamgylchedd. Beth yw ein cyfrifoldeb fel eglwys? Sut awn ni ati i wneud ein cyfraniad? Y bwriad yw ymgynnull grŵp i restru newidiadau bach ond pwysig i'r ffordd da ni'n gwneud pethau yn yr eglwys ac adref er mwyn byw bywydau mwy caredig i'r blaned. Os y dymunwch wybod mwy a/neu yn dymuno bod yn aelod o'r grŵp, anfonwch nodyn at yr Ysgrifennydd, os gwelwch dda:
*ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com*

Nid oes gennym hawl ar ddim byd,
Ond ar yr hen ddaear wyw;
A honno sy'n anhrefn i gyd
Yng nghanol gogoniant Duw

***Hedd Wyn***

## CIAN IOLEN RHYS, ACADEMI AMAETH YR IFANC 2024

Bu Cian yn llwyddiannus yn ei gais i fod yn rhan o Academi Amaeth yr Ifanc 2024. Mae Academi Amaeth yr Ifanc yn cynnig profiad gwaith i'r bobl sydd fwyaf blaenllaw yn y diwydiant bwyd ac amaeth. Mae'r rhaglen yn darparu amrediad o weithgareddau i ysbrydoli'r ifanc i ddarganfod llwybr gyrfa. Bydd y rhaglen yn cynnig rhwydwaith cymorth a fydd yn agor drysau ac yn creu cyfleoedd amrywiol.

Mae'r rhaglen yn dechrau yn swyddogol yn Sioe Frenhinol Cymru gyda nifer o leoliadau ar draws y wlad yn ystod y flwyddyn ac yn cynnwys taith astudio i Norwy fis Hydref.

Mae Cian yn fyfyriwr yng Ngholeg Glynllifon. Yn ei amser rhydd, mae'n gweithio ar fferm yn ardal Caernarfon ac, wrth gwrs, mae'n gymorth mawr i Hedd gyda'r gwartheg a'r defaid. Cian ydy ysgrifennydd Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen, mae'n chwarae rygbi i dîm ieuenctid Bethesda ac yn parhau i fwynhau canu a chystadlu mewn eisteddfodau.

Bod yn arwerthwr da byw ydy dymuniad Cian ac mae'n barod wedi ennill profiad trwy leoliadau gwaith. Mae hefyd wedi cystadlu yn y maes gyda Chlwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Ogwen ac wedi trefnu ei arwerthiant ei hun mewn digwyddiad elusennol yn Nyffryn Ogwen.

Mae Cian yn gobeithio bydd bod yn rhan o Academi Amaeth yr Ifanc 2024 yn ehangu ei orwelion ac yn rhoi'r cyfle iddo gyfarfod pobl ifanc eraill o'r un anian.


*CIAN YN EI ELFEN*

## BLODAU AWST A MEDI




Diolch i Nia Llwyd a Sian Arwel
am ofalu bod blodau
yn ystod mis Gorffennaf.

### MIS AWST

Meriel Parry

### MIS MEDI

1 ac 8 Delyth Murphy
15 a 22 Helen Owen
29 Enid Griffiths

***Diolch yn fawr i bawb sydd wedi rhoi eu henw ar gyfer rhoi blodau yn ystod 2024.***

Diolch
Kath a Meriel

Kath Jones 01248 353313

Meriel 01248 352205 neu
merielparry@gmail.com

## LLWYDDIANT

Llongyfarchiadau i Lisa Morgan am ddod yn 3ydd ar yr Unawd Piano yn Eisteddfod yr Urdd Meifod.

Bu'n cystadlu yn yr adran lenyddiaeth hefyd gan gyflwyno darn Rhyddiaith ac ennill y 3edd wobr. Mae hefyd yn enillydd prif ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Mae pawb yn hynod falch o'i llwyddiant.

Mae Lisa yn ferch i Siân a Tomos Morgan.



MALDWYN 2024
EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
MEIFOD

## CYLCH TI A FI

Ar ddiwedd blwyddyn y Cylch, mae'n braf edrych yn ôl ar gyfnod llwyddiannus iawn. Mae'n amlwg fod y Cylch yn boblogaidd gan fod cymaint â phymtheg o deuluoedd yn dod rhai wythnosau.

Rydym wedi ffarwelio â rhai o'r plant fydd yn mynd i Gylch Meithrin ar ôl yr haf ond mae gennym lawer o fabanod a phlant ifanc iawn, sy'n argoeli'n dda ar gyfer y dyfodol. Yr hyn sy'n amlwg ydy gymaint y mae'r rhieni'n gwerthfawrogi'r Cylch. Maent hefyd yn falch o gael cyfle i gymdeithasu a sgwrsio dros baned.

Yn ystod y flwyddyn cawsom ein hymweliad arferol gan Sion Corn, cynhaliwyd bore coffi er budd y Cylch a chafwyd sesiwn gan Elin Haf Hughes, Swyddog Cymraeg i Blant Arfon, Mudiad Meithrin.

Hoffwn ddiolch i Elin Owen, yr arweinydd, am ei gwaith. Mae'n cynnig amrywiaeth o brofiadau i'r plant, o ganu a dawnsio i waith crefft.

Hoffwn hefyd ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sy'n helpu. Hebddynt, ni fyddai'n bosibl cynnal y Cylch. Rydym bob amser yn croesawu gwirfoddolwyr newydd. Os hoffai unrhyw un wirfoddoli, byddem yn falch iawn. Golyga fod yno ar fore Iau o 8.45 tan 11 yn ystod y tymor ysgol, i helpu Elin estyn y teganau, paratoi paned a chlirio'r teganau ar ddiwedd y sesiwn. Allwch chi sbario ychydig dros ddwy awr dda unwaith y tymor? Bydd y Cylch yn ailagor ddydd Iau, Medi 5.

Am fwy o fanylion cysyllter ag Elen Lansdown.

Elen Lansdown *(Ysgrifennydd)*



## YMWELIAD EMAUS Â CHANOLFAN PERERIN MARY JONES YN LLANYCIL

Cafodd rhai o aelodau Emaus Sul gwahanol iawn ar Fehefin 23 pan aethom ar daith i Ganolfan Pererin Mary Jones yn Llanycil, ger Y Bala.
Agorwyd y ganolfan yn 2014 yn Eglwys Beuno Sant, Llanycil, a'r enw arni bryd hynny oedd ***'Byd Mary Jones'*** neu ***Mary Jones World***. Roedd rhai ymwelwyr felly dan gamargraff mai parc thema, tebyg i **Disney World**, oedd yn eu disgwyl!

Yn 2024 felly, i ddathlu dengmlwyddiant y ganolfan, gwelwyd cyfle i ailfrandio'r lle fel ***'Canolfan Pererin Mary Jones'*** i adlewyrchu hanes Mary Jones (1784–1864), y ferch 15 oed a gerddodd 26 milltir o'i chartref yn Llanfihangel-y-Pennant i'r Bala i gael ei chopi ei hun o'r Beibl Cymraeg gan Y Parchedig Thomas Charles.

Pan aethom i mewn i'r eglwys, cawsom ein rhyfeddu gan ysgafnder y lle wedi iddo gael ei adnewyddu'n chwaethus ac yn bwrpasol. Croesawyd ni yno gan Sian Wyn Rees, Pennaeth Cymdeithas y Beibl yng Nghymru. Wedi cyflwyniad byr ganddi, cawsom ryddid i fynd o gwmpas y ganolfan fodern hon. Cyflwynir stori Mary Jones ei hun ar ffurf ffilm a cheir nifer o baneli sy'n manylu ar ei bywyd hi, ar hanes Thomas Charles, hanes y cyfnod **ac wrth gwrs, hanes sefydlu Cymdeithas y Beibl.** Yn yr erthygl am y ganolfan yn **'Cristion'** (*Mawrth/Ebrill 2024*) dywed Sian Wyn Rees: *"Ychydig a allai Mary fod wedi dychmygu y byddai ei stori hi yn ysbrydoli sefydlu mudiad sydd bellach yn gweithio ar draws y byd i ddosbarthu Beiblau ac adnoddau Cristnogol mewn cynifer o wahanol ieithoedd"*.
Elfen arall o'r ganolfan ydy'r gofod atyniadol a neilltuwyd i blant. Yno mae sgriniau cyffwrdd a lle i'r plant liwio.




YR EGLWYS WEDI'I HADDURNO'N GELFYDD

Yn ogystal â lle i ymweld â hi, y gobaith ydy y defnyddir y ganolfan fel lleoliad ar gyfer gweithgareddau amrywiol, meigs encil, hyfforddiant, cyfarfodydd gweddi a digwyddiadau i'r gymuned leol. Eisoes cynhelir grŵp wythnosol i blant hyd at 4 oed. Wedi ymweld â'r ganolfan, cawsom ginio yngnghaffi'r safle sy'n edrych dros Lyn Tegid.

Ymlaen â ni wedyn i Lanuwchllyn i ymuno â'r gwasanaeth yn Yr Hen Gapel, sef Mam Eglwys yr Annibynwyr ym Meirionnydd, o dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Carwyn Siddall. Wedi'r gwasanaeth rhoddodd sgwrs inni ar hanes yr Annibynwyr ym mro Llanuwchllyn, gan fanylu ar gapeli'r ofalaeth.

Cyn troi am adre aethom i'r fynwent sydd y drws nesaf i'r capel i weld bedd y Parchedig Michael Jones a'i fab, yr enwog Michael D Jones, a anwyd yn y tŷ capel ac a aeth ymlaen i sefydlu'r Wladfa ym Mhatagonia.

A dyna'r 'bererindod' ar ben. Fodd bynnag, mae pererindod arall, sef olrhain taith Mary Jones ar droed.

Beth amdani?

***Elen Lansdown***



O FLAEN YR HEN GAPEL



CINIO BLASUS GER YR EGLWYS



GWRANDO'N ASTUD AR Y CYFLWYNIAD

## Undeb Bedyddwyr Cymru, Eglwys Croesgoch, Hwlffordd Cynhadledd Flynyddol 2024

Cyrhaeddom ar y nos Sul mewn pryd i gael yr ail hanner o'r Gymanfa Ganu dan arweiniad medrus Gwawr Owen gyda Valerie Llewhelin wrth yr organ. Llanwyd y capel gan sain gyhyrog y meibion a chafwyd bendith drwy'r gân. Roeddym yn rhannu bwthyn cyfforddus iawn gyda Bil a Ruth Davies, nepell o'r capel. Fore Llun aethom draw i Dŷ Ddewi a chael sgyrsiau gydag eraill oedd wedi cyrraedd – rhai am fynd o amgylch y Gadeirlan yn y pnawn ac eraill yn mwynhau cerdded o gwmpas a mynd draw am baned i Gapel Seion yng Nghrymych. Buom ni o gwmpas y Gadeirlan a theimlo tangnefedd y lle sanctaidd hwnnw. Aeth rhai i'r Barbeciw ar Fferm Harglodd Uchaf gyda'r nos ond dewisom ni fynd am dro i Borthgain a rhyfeddu at hanes hynafol y lle hwnnw.

Cynhaliwyd y Cyfarfodydd Busnes ar y dydd Mawrth ac aeth popeth rhagddo yn unfryd unfarn cyn gwrando ar Siân Wyn Siencyn a Siân Howys yn adrodd hanes Apêl Heddwch Merched Cymru: "hanes ddoe, heriau heddiw." Er ein bod wedi cael y fraint o wrando ar Siân Howys yn Emaus, roedd rhagor i'w ddysgu. Wedi mwynhau pryd blasus iawn yn Crug Glas daeth cynulleidfa niferus i'r capel ar gyfer Oedfa'r Llywydd ac, wedi dilyn seremoni neilltuo'r Parchg Geraint Morse, traddododd yntau anerchiad grymus yn dilyn thema'r Undeb: **"Adeiladaf fy Eglwys".**

Dechreuwyd bore Mercher gyda defosiwn gan y Parchg Ddr Rhys Llwyd fydd yn aros yn hir yn y cof. Roedd pob casgliad yn ystod yr Undeb tuag at Apêl UBC:

"TALENTAU GOBAITH ZIMBABWE".

I gloi'r gynhadledd, cynhaliwyd Oedfa'r Weinidogaeth pan groesawyd gweinidogion newydd, a choffáu gweinidogion dan arweiniad y Barchg Judith Morris gyda phregeth rymus gan y Parchg John Treharne. Caewyd y gweithgareddau dros fwrdd cinio eto yn Crug Glas cyn i bawb droi am adra neu gael diwrnod neu ddau o hoi yn yr ardal fel y gwnaethom ni, gan ymweld â Solfach, Tre-fin ac Arberth a dal i fyny gyda newyddion ffrindiau.

Cafwyd amser difyr yn hel atgofion a chyfarfod ag eneidiau hoff cytûn.

***Siân Arwel Davies***



TAIR O "GYN-BENUELIAID" YN SGWRSIO AMSER PANAD.

# CORNEL POSAU GARETH

## ATEB I BOS GORFFENNAF 2024

### POS YR EWROS

Mae 12 sgôr yn bosibl ar hanner amser

## POS AWST/MEDI 2024




### POS YR EISTEDDFOD

Mae rhaglen Eisteddfod
Rhondda Cynon Taf
yn cynnwys 171 tudalen.
Gallwch rannu 171 gyda 3 a 9
a pha rif arall ***(ar wahân i 1 a 171)?***

Bydd yr ateb yn rhifyn Hydref.

## RHWNG MÔN AC ARFON

Rhwng Môn ac Arfon, Arfon a Môn
mae hen gyfrinachau, hen si a hen sôn.

O Arfon, mae'r lonydd hir sy'n nadreddu
dros yr Ynys hudol yn denu, denu

ac o Fôn fe wêl ymwelwyr yr ha'
*"breathtaking views of Snowdonia".*

Mae hyd yn oed enwau'r ddau ymhleth,
Yn caru casáu, mewn rhyw gwlwm cymhleth.

Mae'r bontydd mawreddog a'r traffig di-stop
yn gwneud môr a mynydd o bicied i'r siop

ac wrth fynd o'r gwaith i'r lle da chi'n byw
mae na dragwyddoldeb i'w gael mewn ciw.

* * *

O Fôn dros y Fenai gwelaf gyrion Llŷn
dacw bigau'r Eifl a fy ddoe fy hun.

Oddi yno'n y pellter y gwelwn Fôn
â'r Eifl bryd hynny mond i lawr y lôn.

O Foel y don, dacw'r Felinheli
yn bentref del, fel rhyw Balamory.

O'r Felin, mor weddw yw Moel y Don
ni ddaw fferi mwy i wneud oed â hon.

Gwelaf dre Caernarfon o'r traeth ger Brynsiencyn,
gweld cefnau'r tai, gweld dy ffenest wedyn,

a minnau mond smotyn i'th lygaid di
yn symud ar draethell pell gyda'r ci.

* * *

Cyfeillion anniddig, cyd-syllwyr syn
yw'r 'draw fanacw' a'r 'yma fan hyn'.

Dan ni'n croesi'r bont ar ein taith o hyd
cyn troi am adre at y gwylio mud.

Rhwng y tir a'r ynys mae na ddyfroedd hallt
a rhyw ddrama'n digwydd dwi ddim yn i
ddallt

a rhywle'n y canol, mond yn hanner call
wyf fi, heb berthyn i'r naill na'r llall.

*Casi*

# MAWL GER Y PIER 2024

Yn anffodus ni wnaeth y tywydd gydweithredu gydag ymdrech Cytûn Bangor i gynnal Mawl ger y Pier eleni – fel y gwelwch o'r lluniau isod! Daeth cawod drom o law pan oeddem ar fin cychwyn ac felly bu rhaid rhoi gorau iddi ar ôl canu un emyn a chael gair o weddi. Pan beidiodd y glaw, fe wnaeth grŵp Saesneg Agor y Llyfr gyflwyno stori'r Gwas Anfaddeugar i'r rhai ohonom oedd heb ei throi hi am adref. Diolch yn fawr iawn iddynt hwy ac i bawb ddaeth i gefnogi. Diolch yn arbennig i Sue, Magnus ac Adam am gynnig cyfeilio inni - er nad oedd angen eu gwasanaeth yn y diwedd.

I ychwanegu at ein rhwystredigaeth, wrth i rai ohonom gerdded ar y Pier wedyn, daeth yr haul allan a bu'n braf am weddill y diwrnod. Ond ar waethaf y tywydd, cafwyd cymdeithas felys gyda'n gilydd o dan yr ymbarél ac yna dros baned yng Nghaffi'r Pafiliwn!



*Canu - ond dim dawnsio - yn y glaw!*

(Holwch rywun dros drigain oed am y ffilm enwog o'r un enw !)




*Rhai o aelodau Eglwys Sant Ioan yn disgwyl i'r glaw fynd heibio*.



*Rhian,*
*chwaer-yng-nghyfraith*
*David Llywelyn Jones,*
*yn barod*
*i gymryd rhan*
*gyda chriw Agor y Llyfr.*



# CYFEIRIADUR EMAUS

**ADEILAD A BWCIO YSTAFELLOEDD:**
Wesley Evans
wesley.evans@phonecoop.coop
680858

**BMS:**
Siân Arwel Davies
arwelfa@hotmail.co.uk
713464

**CYTÛN A CHYMORTH CRISTNOGOL:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**GWEINIDOG:**
y Parchg Casi M Jones
gweinidog.emaus.bangor@gmail.com
07984 085267

**MASNACH DEG:**
Catrin Evans
catrin.evans@phonecoop.coop
680858

**NEGESYDD – CYSODI:**
Eirwyn Morris
negesydd@btinternet.com

**NEGESYDD – ROTA GOLYGU:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243

**PANED A SGWRS**
Menna Roberts
garethamenna@btinternet.com
351243
Jennifer Thomas
gwjen@tiscali.co.uk
362125

**ROTA BLODAU**
Kath Jones
353313
Meriel Parry
merielparry@gmail.com
352205

**ROTA'R ORGAN:**
Enid Griffiths
712726

**SWYDDOG DIOGELU:**
Eleri Lloyd Jones
eleri.jones30@btinternet.com
364665

**TI A FI:**
Elen Lansdown
elen.lansdown@icloud.com
364843

**TRYSORYDD:**
David Llewelyn Jones
trysorydd.emaus.bangor@gmail.com
01766 522968

**YSGRIFENNYDD ARIANNOL:**
Dilwen Lloyd Jones
dilwen.emaus.bangor@gmail.com
364665

**YSGRIFENNYDD CYHOEDDIADAU:**
Rhianwen Huws Roberts
erwwen01@gmail.com
352726

**YSGRIFENNYDD CYFFREDINOL:**
Gareth Ffowc Roberts
ysgrifennydd.emaus.bangor@gmail.com
351243